

# Meini prawf cymhwyster

Opsiwn	Categori	Statws cymhwyster	Gwasanaethau sydd ar gael	Mesur rheoli	Cyfyngiadau gwasanaeth
1	Busnes ffermio sefydledig	LLAWN	Pob gwasanaeth	<p>- 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru*</p> <p>- Cyfeirnod Cwsmer (CRN)</p> <p>- Prif Rif Daliad Cymreig (CPH)**</p> <p>*Wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)</p> <p>** Dim ond os yn berthnasol</p>	<p>Partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu (<i>priod/partneriaid/meibion/merched</i>) a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill yn gymwys.</p> <p>Cymorth cymorthdaledig (<i>hyfforddiant</i>) hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p> <p>Hyd at 90% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol. Cyfyngedig i £3,000 fesul busnes cymwys (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p>
2	Systemau ffermio / garddwriaeth arbenigol o dan 3ha	LLAWN	Pob gwasanaeth	<p>- Gweithgareddau Ffermio arbenigol o dan y trothwy 3ha</p> <p>- &gt;550 o oriau llafur safonol y flwyddyn</p> <p>- Cyfeirnod Cwsmer (CRN)</p> <p>- Prif Rif Daliad Cymreig (CPH)*</p> <p>* Dim ond os yn berthnasol</p>	<p>Rhaid i bob system ffermio / garddwriaeth arbenigol fodloni'r gofyniad &gt;550 o oriau llafur safonol y flwyddyn.</p> <p>Partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu (<i>priod/partner/meibion/merched</i>) a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill yn gymwys.</p> <p>Cymorth cymorthdaledig (<i>hyfforddiant</i>) hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p> <p>Bydd hyd at 90% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol, wedi'i gyfyngu i £3,000 fesul busnes cymwys (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p>
3	Newydd-ddyfodiaid Ffermwyr/ garddwriaethwyr newydd, gyda'r hyfforddiant a'r profiad i sefydlu busnes fferm/ garddwriaeth newydd.	CYFYNGEDIG	Digwyddiadau; Cymorthfeydd, clinigau a gweithdai; Agrisgôp; Mentora; E-Ddysgu; Academi Amaeth; Hyfforddiant; Dechrau Ffermio; Gwasanaeth Cynghori; Cefnogaeth garddwriaeth	<p>Unigolion sydd eisoes yn byw yng Nghymru sy'n bwriadu sefydlu busnes newydd. Rhaid bod gan unigolion gymhwyster coleg/addysg bellach perthnasol a/neu fod wedi cael o leiaf 2 flynedd o brofiad gwaith yn y sector.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bodloni'r gofyniad 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru o fewn dwy flynedd</li> <li>• CRN (Cyfeirnod Cwsmer)</li> </ul> <p>*Gellir ystyried unigolion o gefndir nad yw'n ymwneud â ffermio heb unrhyw brofiad na chymwysterau fesul achos ar gyfer nifer cyfyngedig o wasanaethau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Ni ddylai fod wedi gwneud unrhyw waith fel contractwr o'r blaen.</p>	<p>Mae partneriaid busnes yn gymwys.</p> <p>Cymorth cymorthdaledig (<i>hyfforddiant</i>) hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p> <p>Bydd hyd at 100% o gyllid ar gael fesul achos i gael mynediad at un enghraifft o gymorth ymgynghorol (<i>Cynllunio Busnes</i>) dros gyfnod y rhaglen.</p>
4	Contractwr	CYFYNGEDIG	Digwyddiadau; Mentora; E-Ddysgu; Hyfforddiant; Cymorth garddwriaeth	<p>Contractwyr sydd eisoes yn byw yng Nghymru ac yn gwneud gwaith amaethyddol/garddwriaethol rheolaidd i fusnesau cofrestredig (<i>rhaid i'r busnesau hynny ddangos tystiolaeth o statws cymhwyster llawn</i>).</p> <p>Statws contractwr i'w gadarnhau gan aelodaeth NAAC neu gyfwerth ac wedi'i wirio gan y busnes cofrestredig.</p>	<p>Cymorth cymorthdaledig (<i>hyfforddiant</i>) hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn. (<i>cyfyngiadau yn berthnasol</i>).</p>



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**